

Adlais

Y dosbarthiadau Cymraeg

Dau Dy Newydd

Sgwrs Lovaine yn disgrifio ei thaith i Gymru yn y Siop Siarad yn nhy Camwy.

Cychwynais ar fy nhaith i Gymru ar y chweched ar hugain o Fehfin 2001.

Roedd hi'n daith hir o bedair awr ar ddeg gan adael Buenos Aires a newid awyren yn Efrog Newydd a chyrraedd Llundain. Teithiais gydag American Airlines!

Teithiais gyda'r côr o Lundain i Gaernarfon. Cawsom ein croesawu gydag asado yno. Fe es i wedyn i'r de ac i gyfarfod Megan Bevan ym Mhorthyrhyd. Fe aeth hi

â mi i Sain Ffagan i ddangos y siop ble arferai fy hen Nain fyw a gweithio. Roedd y siop nawr yn Sain Ffagan. Enw'r siop oedd Stôr Gwalia. Es i weld yr hen ffram lle arferai Taid a Nain fyw a roedd wedi newid llawer. Roedden nhw'n byw ar ffram a'r enw Ty Newydd iddo a felly mae'n nhw wedi galw'r fferm yn y Wladfa'n Ty Newydd!

Bues yn Nhy Ddewi a gwelais seremoni'r orsedd yn cyhoeddi'r Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Roedd o y tro cyntaf imi ei weld. Teimlais yn emosiynol iawn yn canu'r emynau. Roedd yn rhyfedd canu caneuon oedd yn gyfarwydd ond mewn lle gwahanol.

Wedyn es i Llanbed am 8 wythnos efo 7 o ferched eraill. Roedd popeth yn iawn!

Roedd y cwrs yn galed, 7 awr y dydd am 6 wythnos! Roedd hynny'n ddigon er inni wneud fwy wedyn! Roedden ni'n cael hwyl yn cyd-fyw Marcia Griffiths a Susana Celano o Drelew, Sylwina Garzonio o Borth Madryn, Grisial Roberts, Ximena Roberts ac Anna Clara Cantero o'r Andes. Cyfarfyddais â Pedr MacMullan ac Eleri Hughes a Gwilym Roberts (cyn athrawon imi a Gwilym oedd ein hathro yr wythnos olaf).



Lovein a'i ffrindie yn y siop siarad.

Fe es i weld ardal Penfro a'r Castell a glan y môr wrth gwsr.

Eleni roedden ni'n rhentu ty ynghanol y dre. Roedd gennym ystafell wely yr un! A roedd y ty yn gyfforddus. Roedd llawer o fyfyrwyr eraill yno yn aros. Roedd y cymdogion yn hyfryd! Mr a Mrs Williams drws nesa -daethon ni'n ffrindiau mawr a roedden ni'n mynd drwy'r wal sych yn gofyn am bethau wrth ein gilydd!

Wedyn fe es i Wyl Y Glaniad yn y Bala. Teithiais i yno ar fws! Roedd fy hen Nain yn wreiddiol yn dod o Lanuwchllyn. Fe aethon ni wedyn i'r Faenol i wrando ar Bryn Terfel. Roedd o'n canu am dair noson ond aethon ni ar y nos Wener, y noson gyntaf. Buon ni bedair awr o dan yr ymbarel yn sefyll yn y glaw! Roedd pobl yn mynd efo'u byrddau a'u cadeiriau. Roedd hyn yn rhyfedd imi achos basen ni ddim yn gwneud hyn yn yr Ariannin achos mae'r tywydd mor wahanol a sych.

Yna aethon ni i Aberystwyth. Roedd gen i berthynas yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol a dangosodd hi'r llyfrgell gyfan imi. Arhosais gyda hi dros y penwythnos a fe aeth â mi i ddangos y fferm ble cafodd fy hen Daid ei eni. Gwelais y ty ble cafodd ei eni yn Nant Y Moch, Ponterwyd!

Wir, bu teithio i Gymru yn brofiad i'w drysori.

Nest Evans de Craig

Mae atgofion cynnes iawn am Nest yn ein plith ond mae wedi ein gadael ers dros ddwy flynedd nawr. Rydym yn gweld ei heisiau yn amal, ond felna mae Rhagluniaeth. Bu ei marwolaeth ar y 24 o Ebrill 1999 yn 77 mlwydd oed a cafodd ei chladdu ym mynwent y Gaiman.

Ganwyd Nest mewn fferm yn agos i'r Gaiman yn ferch i Egryn Evans ac Elizabeth Williams. Yn ferch ifanc roedd yn dod i'r capel efo ei brawd Darwel ac yn helpu efo'r plant, y canu ac yn y blaen. Felly aeth ymlaen efo'r efengyl nes cael troedigaeth a penderfynny mynd yn genhades. Roedd yn ferch garedig iawn ac yn barod i helpu pawb. Roedd yn hoffi ymweld a phobl sal yn yr ysbytai neu yn ei cartrefi a mynd a gair o gysir iddyn. Yn ferch reit ifanc gadawodd ei chartref a mynd fel cenhades i ardal Sarmiento i weithio yno. Roedd yn gweithio llawer efo'r plant yno.

Ar ol peth amser aeth cenhadwr draw am dro sef Juan Craig. Priodasant yn 1949 a byw yn Sarmiento am beth amser. Yn 1952 daethant i fyw i'r Gaiman a gweithio llawer yn nghapeli yr ardal. Yn 1956 aethant i fyw i Drelew lle bu Mr Craig farw ar ôl rhai blynyddoedd.

Daliodd Nest ymlaen efo gwaith yr efengyl. Nid oedd ganddi blant ei hun ond bu llawer o ferched ifanc yn cael aros yn ei chartref am flynyddoedd a chael addysg da iawn ganddi.

Roedd drws ei chartref yn agored i bawb o unrhyw oed, roedden yn gallu rhannu eu problemau, gweddio dros rywun a roedd gan Nest air o gysir i bawb a chwpaned o dde a theisen bob amser yn barod.

Mae y gymuned oll wedi colli gwraig glân a siriol dros ben, yn llawn hiwmor iâch. Mae hiraeth ar ei hôl.

Sibyl Owen de Evans - Gwobrwywyd yn Minieisteddfod Bethel 2001

Myfyrwyr Llanbed

Ble mae nhw nawr?

Roedd CARLOS ALBERTO REY PUGH yn y pumed ddosbarth yn Ysgol Camwy pan aeth ar gwsr LLANBED yn 1995. Buom yn sgwrsio ac efo yn ddiweddar.

Ble da chi'n byw rwan, LOLE?

Rwy'n byw yn LA PLATA.

Beth da chi'n wneyd yn La Plata?

Rwyf yn mynychu coleg persawriaeth gan obeithio graddio yn fuan.

Beth arall da chi'n wneyd yno?

Rwy'n sketo ac yn dysgu rhai eraill ac yn cymeryd rhan mewn sioau.

Mi fuoch yn rhoid dosbarth Cymraeg, a ydych yn dal ymlaen?

Na, nid ar y pryd yn anffodus.

A ydych yn cael cyfle i siarad Cymraeg yn La Plata?

Ychydig o gyfle. Rydym yn ymarfer efo mrawd Alejandro a hefyd efo Milton del Real ac wrth gwsr efo Nuri May Hughes sydd yn feddyg draw yn La Plata.

Rywbeth arall y hoffech adrodd wrth ddarlennwyr Y Draffod?

Mae amryw o fobol ifanc a diddordeb mewn ymarfer dawnsio gwerin Gymreig felly rydym yn meddwl am sefydlu criw dawnsio mis Mawrth 2002.

Diolch yn fawr, Lole, a phob hwyl efo'r dawnsio gwerin.



Grahame Davies



Yn ddiweddar bu y Br Grahame Davies yn ymweld â'n hardal. Mae efo yn gyfrifol am newyddion y BBC ar y wê yn Gymraeg. Yn yr un man mae Glyn Evans yn gweithio hefyd yn paratoi'r newyddion. Gellwch ei ddarlenn bob dydd wrth gysylltu efo www.bbc.uk/cymru Daeth y Br Grahame Davies i gynorthwyo efo'r prosiect Dolen Ysgolion gan weithio efo'r cyfrifiaduron yn y gwahanol ganolfannau lle y dysgir Cymraeg. Mae Dosbarth 4 a 5 yn Ysgol Camwy yn cysylltu trwy yr e-bost â disgyblion Ysgol Maes Yr Yrfa yn rheolaidd a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu i'r athrawon Cymraeg elwa llawer ar ei help. Diolch, Grahame, am eich parodrwydd i'n cynorthwyo mewn modd ymarferol ac effeithiol.

CASA DE TE

Tu Gwyn

9 de Julio 111 - Tel: (02965) 491069
Gaiman - Chubut - Patagonia Argentina
E-Mail: tygwyn@cpang.com

CS Servicios Agropecuarios camposur

POPETH AT WASANAETH POBL Y FFERMYDD LLE DA I BRYNNU HADAU

Paraguay 55 - Trelew
Teléfono: 436259

Adlais

Dechreuad y Daith . . .

Mae cael y profiad o fynd allan i'r Wladfa wedi bod yn uchelgais personol i mi bellach ers sawl blwyddyn, cael y cyfle i gyfuno dau o fy hoff bethau - teithio a dysgu Cymraeg - ac eleni mi fûm yn ddigon ffodus o gael gwreiddu y freuddwyd honno. Yn eironig felly, dyma finau yn gadael harddwch bro fy mbebyd, fore Sadwrn crasboeth ar yr 28ain o Orffennaf 2001, yr union ddyddiad y mae Cymry'r Wladfa yn dathlu Gwyl y Ganiad. Ar yr 28ain o Orffennaf 1865, glaniodd y Mimosa a'r Cymry ym Mhorth Madryn.

Wrth hedfan i Aerpuerto Trelew, cofiaf edrych allan drwy'r ffenest fach, a synnu gan ddifeithwch y lle. Fe wnaeth Catherine Williams fy mharatoi ar gyfer yn olygfa hon yn ei llyfr Haul ac Awyr Las, serch hynny, dyna sioc i'r system oedd gweld dim byd ond tir brown, anial, môr a drain - beth oeddwn wedi gwneud?!

Efallai mae oerni a diffeithwch y gaef oedd yn fy nsgwyl wrth i mi droeddi oddi ar yr awyren, ond cyferbyniad llwydd oedd y croeso twymgalon a gefais gan y rheini sy'n ffrindiau i mi erbyn hyn! Baner y Ddraig Goch a chriw o Gymry Cymraeg a Chymry'r Wladfa oedd yn fy nsgwyl y bore gaeafol hwnnw.

Mynd yn syth mwy neu lai i enwog westy'r Touring Club i gael clone, dweud helo a chroeso, ac yfed café con leche a submarino - esta rico!! (blasus iawn!!)

Mae amserlen yr wythnos yn dra wahanol i Gymru, ac eithrio awr ar fore Llun a Mercher, dw i'n dysgu yn y prynhawn rhwng yr oriau dau ac wyth. Uchfabwynt yr wythnos waith i mi, ydy gadael Terminal Trelew a theithio siwrnai awr yn y bws i Borth Madryn. Treulio diwrnod yn dysgu mewn tref glan môr. Câf awr yn rhydd yn ystod y prynhawn a manteisiaf ar y cyfle i fynd am dro ar y traeth, ac anadlu aer y môr a gwyllo'r morfilod yn chwarae yn y dŵr! Mae'r siwrnai nôl o Fadryn yn werth crybwyll, dw i'n cychwyn wrth i'r haul fachlud, a rhyfeddod yn wir yw gwyllo'r awyr amryliw - wrth edrych yn syth ymlaen gallwch weld melyn ac oren, fel petai'r awyr ar dân, ond wrth droi i'r ochr dyma coch a phinc a phorffor, arwydd sicr am ddiwrnod arall o Haul ac Awyr Las.

Tra'n sôn am brofiadau newydd, rhaid sôn am yr arfer o yfed mate a bwyta asado - ni allwch ymweld â'r Wladfa heb brofi'r dda! Pe bai'n rhaid i mi ddisgrifio mate, y geiriau sy'n dod i fy meddwl yw te chwercw wedi ei wneud o ddail Yerba.

Arfer cymdeithasol iawn yw yfed mate ac mae pobl yn ymgynull gyda'i gilydd i'w yfed. Mae'r diod yn pasio o un person i'r llall a phawb yn yfed trwy'r un gwelltyn!

Cefais fwy o flas o lawer ar fy asado cyntaf! Nid yw cymharu asado â barbeciwn yn gwneud cyfawnder â'r asado, ond dyma'r agos yr ydym ninnau'n profi yng Nghymru. Eto digwyddiad cymdeithasol, pawb yn dod at ei gilydd i gael hwyli a chymdeithasu, a'r dynion sydd fel arfer wrthi gylid yn paratōi cig yr asado. Mae rhositio oen bach yn gyfan yn brysus yn paratōi cig yr asado. Mae'r Archentwyr yn gwybod sut mae yn ddigon cyffredin, ac mae'r Archentwyr yn gwybod eu coginio eu cig! Un asado yr wyf wedi mynychu hyd yn hyn, ond gyda'r Gwanwyn ar fin cychwyn mae yna adawid o lawer mwy i ddilyn!

Tra'n sôn am fwyd, rhaid sôn am y te sydd mor nodweddiadol o Gymry'r Wladfa. Wrth ymweld â phentref bach Gaiman, ni allwch osgoi yr amryfal dai te - Casa (Ty) de Te Ty Gwyn, Casa de Te Caerdydd, Casa de Te Nain, Casa de Te Plas-y-coed. Dw i ond wedi profi te yn Nhy Te Ty Gwyn, drwy wahoddiad caredig Sonia Irianni, a dyna oedd gwledd. Tepot anferth yn llawn te poeth a bara 'menyn a jam mafon a jam citron i gychwyn, yna platiau yn cynnwys danteithion arbennig - tua deg math o deisen i gyd - sgoniau, teisen hufen, teisen gnau, teisen fanana, teisen siocled, filan mofus a hufen, pastai afalau, teisen merang, teisen ffrwythau a'r enwog deisen ddu, sy'n debyn iawn i'n bara brith ni, ond gyda chydig o frandi!



Mynd Ymhell i Ddysgu Iaith

Ymhlith y criw aeth i astudio i Goleg Llamed eleni, roedd Silvina Garzonio. Yma mae hi'n cael ei holi gan Olga Edwards.

Pwy wyt ti?

Silvina Garzonio Jones dw i.

O le wyt ti'n dod?

Ces i fy ngeni yn Nhwleuon ond dw i'n byw ym Mhorth Madryn nawr.

Pam wnes di symud i Fadryn?

Achos mae fy ngrw wedi adeiladu llong a da ni'n mynd allan â thwristiaid i weld y morfilod.

Pa leithoedd wyt ti'n siarad?

Saeneg wrth gwrs, Saenag ac ychydig o Gymraeg!

Pryd est di i Gymru?

Dechrau mis Gorffennaf, am ddau fis.

Pam?

I astudio Cymraeg, wrth gwrs!! Mi wnes i astudio yn Llamed am ddau fis ac yna theithio ychydig o gwmpas Cymru.

Wnes di hoffi Cymru?

Do, wrth gwrs. Roedd y cwrs yn ddwys, ond nid yn rhy anodd.



Silvina Garzonio ac Olga Edwards yn Madryn.

Roedd pobl o Iwerddon, Croatia, Lloegr, Yr Almaen, Llydaw, a'r Unol Daleithiau ar y cwrs, yn ogystal i criw ohonom ni o Batagonia.

Efo pwy est di i Llamed?

Gwnes i deithio ar ben fy hun, ond wnes i gwrdd â merched eraill o Batagonia yn Llamed.

Sut brofiad oedd astudio yn Llamed?

Profiad diddorol iawn. Dw i wedi di adnabod Cymru a hanes y wlad, yn ogystal â dysgu'r iaith.

Oedd pawb yn mynd i Llamed am y tro cyntaf?

Nac oedden. Roedd Ximena wedi bod yn Harlech a Susana wedi bod yn teithio yng Nghymru.

Sut mae bywyd yng Nghymru yn cymharu â bywyd yma?

Mewn tref fach fel Llamed, mae bywyd yn dawel iawn ac yn ddiogel. Mae pobl yn gorfennu gweithio tua 5, ac yn mynd yn syth adref - mae bywyd yn fwy trefnus, ond mae bywyd yr Ariannin yn fwy cyflym o lawer, gyda phobl yn mynd allan a chymdeithasu yn fwy aml. Roedd pawb a aeth i Llamed o dras Cymraeg, ond mae'r dylanwad Lladin yn amlwg - da ni gy yd yn hoffi dawnsio a mwynhau!

Oes un beth yn arbennig wyt ti'n cofio am dy amser yn Llamed?

Hoffais y profiad yn fawr, roedd y bobl o Gymru yn groesawgar iawn.

Wyt ti'n bwriadu mynd yn ôl i Gymru?

Ydw ond gyda'r teulu y tro yma. Mae Lara fy merch fach eisialu dod gyda mi!!

Wyt ti'n teimlo dy fod wedi dysgu llawer yng Nghymru?

Ydw, dw i wedi dysgu llawer o'r iaith, ac roedd yn brofiad teithio ar fy mhfen fy hun.

Wyt ti'n bwriadu dysgu Cymraeg i Lara dy ferch fach?

Ydw, wrth gwrs. Mae hi'n hoffi canu caneuon yn Gymraeg.

Dilchadau



Dymunwn ddioch yn fawr iawn i'r cyfeillion yn y Dyffryn a'r Andes. Cawsom groeso a charedigrwydd eleni eto. Buasem wedi hoddii gweld llawer mwy ohonoch ond bu'r amser yn brin er i ni fod yma am fis o amser. Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Tan y tro nesa'. GRUFFO ac EIFIONA

Yr Eisteddfod a'r Orsedd

Dyma sgwrs rhwng Irma da Graca de Williams a Sara Jones yn dilyn ail sefydlu Gorsedd Ariannin, ac Eisteddfod Trelew 2001.

Beth oedd dy farn di ar seremoni ail-sefydlu Gorsedd y Wladfa?

Roedd gan bobl y Wladfa draddodiadau o'r Hen Wlad ers blwyddoedd. Mae Seremoni ail-sefydlu Gorsedd y Wladfa yn ffordd arall o gadarnhau hynny. Roedd hi'n seremoni yn llawn pethau newydd a diddorol iawn i ddangos i bawb, felly roedd wedi bod y dda iawn achos roedd llawer o bobl wedi dod i edrych ac mae wedi codi diddordeb yn y Gymraeg yn y Gaiman ac yn Nyffryn Camwy.

Beth fwynehaist di orau am Ei-

steddfod Trelew?

Bob blwyddyn ron ni'n mwynhau y ddwy Seremoni yn Eisteddfod y Wladfa: sef y cadeirio a choroni'r bardd.

Eleni ron ni'n cael cyfle i gymryd rhan yn Seremoni'r Cadeirio a teimlais i'n hapus i fawrgu coffadwriaeth fy nain i Sarah Bowen de Quiroga a phawb o'r bobl sy wedi sefydlu y Wladfa dros y blynyddoedd, ac wrth gwrs ron i'n mwynhau gwrando ar bawb yn cystadlu: adrodd, canu, dawnsio a chanu'r côr.

Ac yn sicr, rhaid rhoi clod i bawb sy wedi gwneud dyfarniad, a perfformiad pwysig iawn achos roedden nhw wedi gweithio'n galed. Roedd llawer o waith, cyn yr Eisteddfod y tu ôl i'r llen. Anghofiais i

ddweud un peth, dw i'n cadw cleddyf yr Eisteddfod!

Sut wyt ti'n cymharu Eisteddfod yr Ifanc yn Y Gaiman ag Eisteddfod "Fawr" y Wladfa?

Dwi ddim yn gallu cymharu nhw achos roedd Eisteddfod yr Ifanc yn fwyneant i'r bobl sy eisio cadw iaith, arfer a thraddodiadau mewn cystadlaethau plant bach a phobol ifanc y Wladfa. Roedden nhw'n dysgu i gystadlu a derbyn berniaeth. Maen nhw'n dysgu caru cerddoriaeth, barddoniaeth a dawnsfeydd o'r Ariannin a Chymru. Ac rhai'r Eisteddfod "fawr" yn bardd o Eisteddfod yr Ifanc drwy'r amser. Mae'r ddwy angen ei gilydd o hyd.

Beth yw dy farn di am destunau Eisteddfod 2002 y Wladfa?

Mae gen i destunau Eisteddfod y Wladfa 2002. Dwi'n hoffi'r llun ar y clawr, yn arbennig y lliwiau a mae wedi ei gynllunio'n dda. Fy marn i am raglen Eisteddfod yr Ifanc ydy ei bod yn ardderchog! Dw i'n siwr bydd y bobl sy'n cystadlu y blwyddyn nesaf yn cael amser da a mwynhad yn paratōi ac ymarfer tuag ato. Yn y modd testunau Eisteddfod "Fawr". Ron ni'n hoffi gweld cystadlaethau 101: cyswllt offerynol camera. Mi hoffwn i'r Pwyllgor Eisteddfod roi i mewn yn raglen 2003, gystadlaethau arall: Gwneuthur cerddoriaeth i gyswllt offerynol rhaffau ac i'r grwp sy'n ennill ganu ar y llwyfan.

Irma Sara da Graca de Williams.
Michael D Jones 99. (9105)



Nené ac Héctor Ariel efo cleddyf Yr Orsedd.

Gaiman, Chubut, Patagonia Argentina
Ffôn ffacs 02965-491084

Típica y tradicional Casa de Té

Con cálido y auténtico ambiente galés
Los esperamos



Filía. Thomas



TORTAS / ARTS. REGIONALES
MATHEWS 74 / Tel 02965-4 91010
GAIMAN - CHUBUT - PATAGONIA

De todo un poco

de Vivian Jones

BAZAR - LIMPIEZA - REGALERIA

E. Tello 230 - Gaiman